Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26

Chwefror 2025

Ar 10 Rhagfyr, gosododd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26.[1] Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu barn y Pwyllgor ar y Gyllideb Ddrafft, a'i argymhellion.

## Tystiolaeth

**1.** Yn sail i'r adroddiad hwn, mae tystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod craffu ar y gyllideb ar 15 Ionawr 2025.[2] Yn y cyfarfod hwnnw cynhaliodd y Pwyllgor dair sesiwn graffu. Mewn un sesiwn, trafodwyd yr economi a sgiliau, lle rhoddwyd tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ("yr Ysgrifennydd Cabinet") a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol. Mewn sesiwn arall, trafodwyd materion gwledig gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ("y Dirprwy Brif Weinidog"). Ac mewn sesiwn arall, trafodwyd materion sy'n gysylltiedig â masnach gyda'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Ysgrifennydd Cabinet. Ym mhob un o'r tair sesiwn, daeth swyddogion ategol gyda'r Gweinidogion. Mae tystiolaeth ysgrifenedig yn sail i'r adroddiad hwn hefyd, a ddarparwyd i'r Pwyllgor gan y tri Gweinidog cyn y cyfarfod. Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n dair pennod sy'n ymdrin yn fras â'r economi gan gynnwys sgiliau, materion gwledig a masnach.

[1] Llyw.Cymru Cyllideb Ddrafft 2025 i 2026
[2] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025

# Argymhellion

**Recommendation 1.** Yn sgil awgrym y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y bydd twf arafach mewn gwariant cyhoeddus o'r flwyddyn nesaf ymlaen, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei chynlluniau cyllidebol yn gynaliadwy, yn ddigon gwydn i ystyried gwahanol senarios ariannu posibl yn y dyfodol, ac yn barod ar gyfer newidiadau ariannu posibl, yn enwedig gostyngiad yn y grant bloc. Dylai Llywodraeth Cymru gynllunio i wneud y defnydd gorau o unrhyw gyllid ychwanegol yn y dyfodol sy'n deillio o dwf economaidd, ond dylai fod ganddi hefyd gynlluniau wrth gefn ar gyfer lefel is o dwf, a allai arwain at lai o gynnydd yn y gyllideb neu doriadau. Yn benodol, rhaid iddi sicrhau bod unrhyw raglenni neu brosiectau a ariennir eleni yn cael eu sefydlu yn y fath fodd fel na fydd unrhyw leihad mewn cyllid y flwyddyn nesaf yn arwain at golli costau suddedig, er enghraifft oherwydd dirwyn prosiect i ben cyn iddo gael ei gwblhau. Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion i'r Pwyllgor am ei chynlluniau wrth gefn cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb derfynol........................ 7

**Recommendation 2.** I gyd-fynd â'r cynnydd yn y cyllid a roddir i Twf Swyddi Cymru+, dylai Llywodraeth Cymru roi manylion i'r Pwyllgor am sut y bydd yn sicrhau cynnydd o ran pa mor agored a hygyrch yw'r rhaglen i'r rhai y mae angen cymorth arnynt fwyaf.......................................................................................................... 9

**Recommendation 3.** Dylai'r Gweinidog rannu canlyniadau ei adolygiad byrdymor o sgiliau gwyrdd cyn gynted ag y bydd wedi'i gwblhau................................11

**Recommendation 4.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau bod arfer da gan Airbus yn cael ei efelychu a bod modd ei gyflwyno i fusnesau llai.......12

**Recommendation 5.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r rhesymeg sy'n sail i'w barn y daw buddsoddiad preifat yn sgil ei dewisiadau polisi yn hytrach na thrwy fuddsoddi arian cyhoeddus i ddenu'r buddsoddiad hwnnw. ............................................13

**Recommendation 6.** Gan fod Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod wedi cyflawni ei hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu ynghylch gweithio o bell, dylai gynnal a chyhoeddi gwerthusiad o'i gwaith yn y maes hwn. Dylai'r ddogfen werthuso, o leiaf, nodi'r hyn a wariwyd, sut y cyflawnwyd yr ymrwymiadau, yr effaith a gafodd hyn ac unrhyw wersi a ddysgwyd. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn cynnal ei chyflawniadau o ran gweithio o bell wrth symud ymlaen, yn enwedig gan nad oes cyllideb ar gael ar gyfer y dasg honno........................................................................................................................ 14

**Recommendation 7.** Wrth bennu ei chyllideb a datblygu cynlluniau cymorth ariannol ar gyfer y sector twristiaeth, rhaid i Lywodraeth Cymru roi cyfrif am yr holl faich rheoleiddio a wynebir gan y diwydiant, nid dim ond rheoliadau sydd wedi'u targedu'n uniongyrchol at ddarparwyr twristiaeth. ....16

**Recommendation 8.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid ar gyfer twristiaeth yn ddigon hyblyg fel y gellir ei ddefnyddio i ymateb i anghenion busnes. ....17

**Recommendation 9.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa waith cynllunio ariannol wrth gefn y mae wedi'i wneud ynghylch cynyddu'r cymorth i'r rhai y mae cau ffwrneisi chwyth Port Talbot yn effeithio arnynt, pe bai angen gwneud hynny..... 18

**Recommendation 10.** Dylai dogfennaeth y gyllideb nodi'n union faint sy'n cael ei ddyrannu, mewn ffordd glir a hawdd ei chanfod, i gefnogi'r rhai y mae cau ffwrneisi chwyth Port Talbot yn effeithio arnynt ac o ba rai o linellau'r gyllideb y daw'r arian. .... 18

**Recommendation 11.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni ei hymrwymiadau i wario £100 miliwn ar raglen y Cymoedd Technoleg erbyn 2028, a nodi faint o gynnydd sydd wedi'i wneud tuag at y nod o greu 1,500 o swyddi cynaliadwy drwy'r rhaglen.... 20

**Recommendation 12.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE yn cael ei gydlynu ar draws adrannau Llywodraeth Cymru ers i'w thîm masnach ymgymryd â'r cyfrifoldeb ychwanegol am ymadael â'r UE. ....23

**Recommendation 13.** Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gydweithio i ddod o hyd i ateb mewn perthynas ag ariannu'r gost o redeg safleoedd rheolaethau'r ffin cyn gynted â phosibl. ....27

**Recommendation 14.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw teitl y BEL yn gywir yn y Gyllideb ac a yw 'Ffiniau' wedi'i ddileu. Os felly, dylai nodi unrhyw oblygiadau ymarferol, os o gwbl, yn sgil ei ddileu. ....27

**Recommendation 15.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio cyn gynted â phosibl ac erbyn diwedd tymor y gwanwyn hwn fan bellaf. ....32

**Recommendation 16.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud naill ai i'r dyraniad drafft neu i ffocws y gwariant

arfaethedig o dan y BEL ar gyfer Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi i gefnogi busnesau y mae cau Porthladd Caergybi dros dro yn effeithio arnynt. ........................32

**Recommendation 17.** Dylid cynyddu cyllideb y Cynllun Ffermio Cynaliadwy o'r dyraniad cymorth amaethyddol presennol i adlewyrchu chwyddiant a hefyd y manteision a ddaw yn sgil y cynllun, gan gynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd. Wrth wneud hynny, dylai'r Dirprwy Brif Weinidog archwilio cyfrifiadau a wnaed gan undebau'r amaethwyr o ran chwyddiant amaethyddol a'r adroddiad Maint yr Angen wrth benderfynu ar gyllideb y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. ........................................................................................... 34

**Recommendation 18.** Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch yr angen i bennu cyllidebau amlflwydd. ......................... 34

**Recommendation 19.** Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu ei hadolygiad o daliadau iawndal TB Buchol a cheisio ei gwblhau erbyn diwedd y Senedd hon...36

**Recommendation 20.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall gefnogi lladd-dai bach yng Nghymru drwy Gyllideb 2025-26...............................................................37

# 1. Effeithiau tymor canolig y Gyllideb Ddrafft

**2.** Yn y datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i gyd-fynd â'r Gyllideb Ddrafft, nodwyd y "bydd holl adrannau'r llywodraeth yn cael cynnydd yn eu cyllid refeniw a chyfalaf, sy'n sefyllfa dra gwahanol i'r cyfyngiadau cyllidebol blaenorol." Roedd yn cynnwys dyfyniad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, a ddywedodd:

> *"Dyma gyllideb sy'n cynnig dyfodol mwy disglair, gan roi £1.5 biliwn yn ychwanegol i'n gwasanaethau cyhoeddus a'n blaenoriaethau a helpu i roi Cymru ar y trywydd cywir unwaith eto i sicrhau twf ar ôl 14 o flynyddoedd anodd dros ben. Mae hyn yn gyferbyniad llwyr i'r flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, pan gawsom ein gorfodi i wneud penderfyniadau anodd a phoenus iawn."*[3]

**3.** Rhoddodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ragolwg o wariant Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth y DU tan 2029-30 yn ei Rhagolwg Economaidd a Chyllidol ar gyfer mis Hydref 2024, a gyhoeddwyd ar yr un pryd â chyllideb y DU. Mae'r rhagolwg yn dangos twf arafach yng ngwariant adrannol Llywodraeth y DU o 2026-27 ymlaen.[4]

**4.** Yn nadansoddiad yr Institute for Government o gyllideb Llywodraeth y DU ar gyfer 2024, nodwyd: "Overall [revenue] spending will continue to increase beyond 2025/26, but more slowly: by 1.4% per year on average in real terms".[5] Yn ei ymateb i Gyllideb y DU, rhoddodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid rybudd llymach:

> *"Meeting that 'stability rule' in 2029–30 relies on the assumption that day-to-day public service spending will grow much more slowly from 2026 onwards."*
>
> *"The first gamble is that a big cash injection for public services over the next two years will be enough to turn performance around, and that many of the temporary spending pressures won't persist. If she's [the Chancellor] wrong about that, and spending pressures don't dissipate after two years, then to avoid cutting unprotected areas she*

---

[3] Llyw.Cymru - **Cyllideb i greu dyfodol mwy disglair i Gymru**
[4] **Rhagolwg economaidd a chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol – Hydref 2024** (Saesneg yn unig)
[5] Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid - **Austerity postponed? The impact of Labour's first budget on public services** (Saesneg yn unig)

> *may well need to come back with another round of tax rises in a couple of years' time – unless she gets lucky on growth".*[6]

**5.** Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn clywed barn Llywodraeth Cymru ynghylch hyfywedd y bwriad i gynyddu gwariant yng nghylchoedd y gyllideb yn y dyfodol.

**6.** Pan ofynnwyd iddi pa mor hyderus ydoedd bod cyllideb Llywodraeth Cymru yn gynaliadwy, yn gryf, ac y byddai'n gwrthsefyll prawf amser, tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio sylw at y ffaith mai cyllideb un flwyddyn oedd hon a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at gyhoeddiadau'r Canghellor ddechrau'r gwanwyn eleni, tua diwedd mis Mawrth, pan fydd yn gosod cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Dywedodd y bydd modd wedyn i Lywodraeth Cymru edrych ar y tymor hwy. Aeth yn ei blaen i ddweud:

> *"But I certainly think that the budget that we have put forward for scrutiny by the Senedd is absolutely a sustainable one. We've worked very hard to look where the allocations that we are able to make this year will have the most impact. And in doing so, I think that this year has been, probably a breath of fresh air for us as Ministers and our teams as well, in terms of being able to allocate funding towards priorities."*
>
> *"Colleagues will be very aware of the difficult few years that we have had in relation to the overall budget, where we have had to reprioritise away from parts of the budget, both within portfolios but then across the Government, towards meeting those priorities, in terms of addressing the pressures caused by inflation on health in particular, but also transport. So, it has been a very different flavour to the discussions that we have had around this year's budget, which has been about allocating funding rather than looking to reprioritise."*

## Ein barn ni

Er bod yr Aelodau'n falch bod y Dirprwy Brif Weinidog, yr Ysgrifennydd Cabinet a'r Gweinidog i gyd yn ymddangos yn hyderus ac yn hapus gyda'u dyraniadau cyllidebol, mae'r Pwyllgor o'r farn bod rhaid i'r dyraniadau gael eu gwario mewn ffordd gynaliadwy a bod rhaid cynllunio digon ar gyfer gwahanol senarios ariannu yn y dyfodol. Os na chaiff bwriad Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o ran twf eu cyflawni, a bod rhybudd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o dwf arafach yn cael ei wireddu, mae'r Aelodau'n pryderu y gellid

[6] Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid - **Autumn Budget 2024: initial IFS response** (Saesneg yn unig)

gweld cynnydd arafach o ran cyllideb Cymru neu hyd yn oed doriadau y tu hwnt i 2026-27. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid ystyried y canlyniad posibl hwn wrth gynllunio unrhyw gyllideb ac y dylai cynlluniau fod yn gynaliadwy dros sawl blwyddyn.

**Recommendation 1.** Yn sgil awgrym y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y bydd twf arafach mewn gwariant cyhoeddus o'r flwyddyn nesaf ymlaen, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei chynlluniau cyllidebol yn gynaliadwy, yn ddigon gwydn i ystyried gwahanol senarios ariannu posibl yn y dyfodol, ac yn barod ar gyfer newidiadau ariannu posibl, yn enwedig gostyngiad yn y grant bloc. Dylai Llywodraeth Cymru gynllunio i wneud y defnydd gorau o unrhyw gyllid ychwanegol yn y dyfodol sy'n deillio o dwf economaidd, ond dylai fod ganddi hefyd gynlluniau wrth gefn ar gyfer lefel is o dwf, a allai arwain at lai o gynnydd yn y gyllideb neu doriadau. Yn benodol, rhaid iddi sicrhau bod unrhyw raglenni neu brosiectau a ariennir eleni yn cael eu sefydlu yn y fath fodd fel na fydd unrhyw leihad mewn cyllid y flwyddyn nesaf yn arwain at golli costau suddedig, er enghraifft oherwydd dirwyn prosiect i ben cyn iddo gael ei gwblhau. Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion i'r Pwyllgor am ei chynlluniau wrth gefn cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb derfynol.

# 2. Yr Economi a Sgiliau

## Y Warant i Bobl Ifanc

**7.** Mae'r Warant i Bobl Ifanc yn un o ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu i roi cymorth i bawb rhwng 16 a 24 oed sy'n byw yng Nghymru i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant neu help i gael gwaith neu hunangyflogaeth. Mae'r Warant yn strwythur ymbarél ac mae'n cwmpasu nifer o becynnau cymorth, gan gynnwys y rhai a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): Twf Swyddi Cymru+; ReAct+; Cymunedau am Waith+; y Rhaglen Sgiliau Hyblyg; a Phrentisiaethau.[7] Daw cyllid ar gyfer y Warant o Brif Grŵp Gwariant (MEG) yr Economi a'r MEG Addysg.[8]

**8.** Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol yn cynnwys y manylion a ganlyn ar gyllid a thargedau ar gyfer rhaglenni cymorth y Warant:

[7] Llyw.Cymru Y Warant Pobl Ifanc
[8] Llyw.Cymru Cyllideb Ddrafft 2025 i 2026

- Dyrennir £32 miliwn i Twf Swyddi Cymru+ yn 2025-26. Daw'r cyllid hwn drwy gontractau ar dendr sydd wedi'u dyfarnu i'r darparwyr a ganlyn: Act Ltd, Coleg Cambria, Consortiwm Grŵp Llandrillo Menai, ITEC Training Solutions, a Choleg Sir Benfro.

- Dyrennir £16.834 miliwn i Gymunedau am Waith+ yn 2025-26. Mae'r prosiect wedi'i anelu at unigolion sydd â rhwystrau mwy cymhleth i gyflogaeth ac fe'i cyflwynir ledled Cymru.

- Dyrennir £7.531 miliwn i'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg yn 2025-26. Nid oes gan Lywodraeth Cymru gontractau gyda darparwyr hyfforddiant gan fod cyflogwyr yn nodi'r darparwr mwyaf priodol ar ôl iddynt gael cyngor gan Cymru'n Gweithio.

- Dyrennir £7.425 miliwn i ReAct+ yn 2025-26. Mae'n darparu cefnogaeth i'r rhai sy'n 20 oed a hŷn. Yn debyg i'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg, nid oes gan Lywodraeth Cymru gontractau gyda darparwyr hyfforddiant gan fod cyflogwyr yn nodi'r darparwr mwyaf priodol ar ôl iddynt gael cyngor gan Cymru'n Gweithio.[9]

**9.** Dywedodd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol wrth yr Aelodau:

> *"the Young Person's Guarantee is a programme for government commitment, Chair, and I think it's one that we're all proud to support in the way that we do. It's a flagship programme, so this is being recognised in other areas across the UK. I look at Greater Manchester; I had the conversation with the mayor of Greater Manchester about our programme and the offer that we provide. So, we'll go on providing funding in this budget for the Young Person's Guarantee."*[10]

## Ein barn ni

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod Twf Swyddi Cymru+ yn dod yn rhaglen ragweithiol i dargedu'r rhai y mae angen cymorth arnynt fwyaf. Er bod cynlluniau blaenorol wedi gwneud gwaith da, roedd y ffaith bod dibyniaeth ar y rhai y mae angen cymorth arnynt i chwilio amdano yn peri pryder i'r Aelodau y byddai pobl yn colli'r cyfle i gael cymorth os nad oeddent yn gwybod am y cynlluniau neu os nad oeddent yn ymgysylltu â hwy. Byddai hyn yn golygu nad

[9] Tystiolaeth ysgrifenedig – y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol
[10] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 52

oedd y cynlluniau blaenorol yn cyrraedd y rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad swyddi, y gellir dadlau mai nhw yw'r rhai y mae angen cymorth arnynt fwyaf.

Mae'r Aelodau'n awyddus i weld sut y caiff yr agwedd ragweithiol hon ei hadlewyrchu wrth ddarparu cyllid. Hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o fanylion am sut y bydd mwy o gyllid yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod y rhaglen mor hygyrch â phosibl.

**Recommendation 2.** I gyd-fynd â'r cynnydd yn y cyllid a roddir i Twf Swyddi Cymru+, dylai Llywodraeth Cymru roi manylion i'r Pwyllgor am sut y bydd yn sicrhau cynnydd o ran pa mor agored a hygyrch yw'r rhaglen i'r rhai y mae angen cymorth arnynt fwyaf.

## Sgiliau, Hyfforddiant a Phrentisiaethau

**10.** Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) yw'r corff hyd braich newydd sy'n gyfrifol am gyllido a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys: darpariaeth chweched dosbarth a gynhelir gan awdurdodau lleol, addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned, ac ymchwil ac arloesi sy'n cael eu cyllido gan y llywodraeth. Daeth yn weithredol ar 1 Awst 2024.[11]

**11.** Mae £143.902 miliwn wedi'i ddyrannu i brentisiaethau yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26. Ym mhapur y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, nodir mai'r alldro gwirioneddol ar gyfer y rhaglen brentisiaethau yn 2023-24 oedd £189.94 miliwn, gan gynnwys £40.44 miliwn o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2024-25 yw £140.72 miliwn. Mae'r gwahaniaeth rhwng yr hyn a wariwyd yn y ddwy flynedd yn fwy na'r incwm a gollwyd o'r Cronfeydd Strwythurol yn unig.[12]

**12.** Ym mhapur yr Ysgrifennydd Cabinet, nodir bod yr "argyfwng costau byw sy'n parhau yn dal i roi pwysau ar ein rhwydwaith darparwyr prentisiaethau sydd wedi dweud bod costau darparu yn cynyddu'n unol â chwyddiant." Mae'n ychwanegu y bydd "Medr yn monitro'r pwysau parhaus sy'n gysylltiedig â chost darparu'r gwasanaeth prentisiaethau" ac y bydd Llywodraeth Cymru yn "eu goruchwylio… hyd at 2025/26".[13]

[11] medr.cymru Pwy ydym ni
[12] Tystiolaeth ysgrifenedig – y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol
[13] Tystiolaeth ysgrifenedig – Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

**13.** Ym mis Rhagfyr 2024 codwyd pryderon yn y cyfryngau ynghylch nifer y prentisiaethau sy'n cael eu creu fel rhan o'r fargen ddinesig ar gyfer Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. Dengys adroddiadau mai dim ond 184 o rolau oedd wedi'u llenwi er mai'r targed yw 3,000. Cafodd aelod o staff sy'n gweithio ar y rhaglen ei ddyfynnu yn y wasg yn dweud: "We're constantly forward-looking in what we're doing. Timing is everything, and maybe the employer demand is not there yet." Fodd bynnag, mae tîm y fargen ddinesig yn dal i gredu y gall gyrraedd y targed o 3,000 o rolau.[14]

**14.** Dywedodd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol wrth yr Aelodau ei fod yn disgwyl i'r niferoedd o ran darparu a dechrau prentisiaethau fod yn debyg i'r ffigur yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac y bydd y Llywodraeth yn aros i weld beth yw'r ffigurau hynny pan gânt eu cyhoeddi ym mis Mawrth. Ond roedd yn disgwyl i'r ddarpariaeth aros yr un fath yn fras eleni ag yr oedd y llynedd. Aeth ymlaen i dynnu sylw at yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i sicrhau bod pobl o bob oedran yn dechrau 100,000 o brentisiaethau a dywedodd ei fod wedi ymrwymo'n llwyr i hyn.[15]

**15.** Tynnodd y Gweinidog sylw at y gwaith awyrofod yn ei etholaeth fel enghraifft o Lywodraeth Cymru yn gweithio'n llwyddiannus iawn gyda'r sector preifat i ddarparu sgiliau:

> *"We have the best aerospace engineers in the world, and that's very much because of the support that the company put in themselves, but also reliant on the support of the Welsh Government through their apprenticeship programmes and through other programmes such as the flexible skills programme, which I think Duncan mentioned earlier. That flexible skills programme in particular, we recognise, is an important part of our future offer, and that's why we've invested significantly more in this budget than we have previously."*[16]

**16.** O ran prentisiaethau gwyrdd yn yr economi werdd, dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau:

> *"I've met with ColegauCymru and apprenticeship providers myself. I'll be holding a green skills short-term review to look at all of the things*

[14] Walesonline.co.uk - City deal apprenticeship numbers 'a little bit disappointing', says council leader (Saesneg yn unig)
[15] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 74
[16] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 33

*that we offer in skills—flexible skills, the implementation of the net-zero skills action plan. I think one of the discussions that I'll have in that short-term review would be around the offers that we provide now, including apprenticeships, and if we could improve that offer in any way then of course I'd look to strengthen where we can."*[17]

## Ein barn ni

Roedd clywed am y pwysau parhaus ar y rhwydwaith darparwyr prentisiaethau yn peri pryder i'r Aelodau. Ym marn y Pwyllgor, mae'n hanfodol bwysig bod cysylltiad cryf rhwng darparwyr, busnes a dysgwyr er mwyn galluogi pobl i ymgymryd â phrentisiaethau gwerthfawr a chanfod llwybrau, ar ôl hynny, i swyddi o safon uchel.

Fel rhan o'r gwaith o sicrhau bod ein rhaglenni prentisiaeth a sgiliau yn addas ar gyfer y dyfodol, ac yn addas i gefnogi nodau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, mae'n bwysig sicrhau'r lefel gywir o fuddsoddiad mewn seilwaith ochr yn ochr â'r buddsoddiad refeniw.

Er bod yr Aelodau'n derbyn ei bod yn anodd annog pobl i ddilyn hyfforddiant ar gyfer swyddi nad ydynt ar gael eto, cred y Pwyllgor fod angen cysoni'r hyfforddiant a ddarperir i'w wneud yn addas ar gyfer swyddi newydd ond hefyd ar gyfer swyddi trosglwyddadwy fel saernïo a weldio, sy'n bwysig o ran ynni hydrocarbon a chynhyrchu ynni di-garbon.

Mae'r Aelodau'n falch bod y Gweinidog yn adolygu hyn ac maent yn edrych ymlaen at weld y canlyniad. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cyhoeddi adroddiad ar yr Economi Werdd yn y dyfodol agos a fydd yn edrych ar y mater hwn yn fanylach.

Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb yn enghraifft y Gweinidog o'r gwaith da sy'n cael ei wneud gydag Airbus yn Sir y Fflint. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn dysgu gwersi o'r fenter hon ac yn ystyried sut i gyflwyno rhagor o fentrau llwyddiannus tebyg ledled Cymru. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda busnesau bach i greu cyfleoedd hyfforddi, yn enwedig cyfleoedd prentisiaeth, ledled Cymru a fydd yn cefnogi dysgwyr ac yn helpu busnesau bach i ddatblygu.

**Recommendation 3.** Dylai'r Gweinidog rannu canlyniadau ei adolygiad byrdymor o sgiliau gwyrdd cyn gynted ag y bydd wedi'i gwblhau.

[17] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 77

**Recommendation 4.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau bod arfer da gan Airbus yn cael ei efelychu a bod modd ei gyflwyno i fusnesau llai.

## Buddsoddiad gwyrdd

**17.** Dywed Ynni Môr Cymru fod datblygu ynni adnewyddadwy morol, gan gynnwys ynni'r llanw a phrosiectau gwynt arnofiol ar y môr, yn gyfle a ddaw unwaith mewn cenhedlaeth i Gymru, a'i bod yn hanfodol sicrhau bod ein porthladdoedd yn barod ac yn gallu cefnogi'r sector.

**18.** O ran y cyfle hwn, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth yr Aelodau:

> *"Within the draft budget, the funding that we're providing is more in the space of the publicly owned energy, rather than trying to lever in the private investment, because the way in which we lever in the private investment is more about the policy choices that we make. So, you heard the statement last week in respect of floating offshore wind and the setting up of that task and finish group, which will put in place a plan, essentially, because what we hear from the private sector is very much that they need certainty and they need that confidence to move forward. And the plan is intended to ensure that they have the confidence and the certainty to move forward because the sector leads who are working in the skills space or the ports or with the developers themselves will be able to set out that plan, where everybody knows at what point they need to be doing things and they have confidence that the investment that they make will be leading to successful projects for them. And then, of course, I won't go into it now because of time, but all of the work that we're doing to speed up the planning process and the new Act, which will be in force later this year. So, the policy space is where we make the difference".*[18]

### Ein barn ni

Fel y nodwyd uchod, bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei ganfyddiadau ar yr economi werdd cyn bo hir. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod yn buddsoddi yn y ffordd gywir i ddatgloi buddsoddiad a fydd yn creu swyddi o safon dda ac yn tyfu economi Cymru. Mae'n amlwg bod cyfle ar gyfer twf economaidd drwy fuddsoddiad i sicrhau bod gan Gymru'r seilwaith i fanteisio ar y cyfleoedd.

[18] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 112

**Recommendation 5.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r rhesymeg sy'n sail i'w barn y daw buddsoddiad preifat yn sgil ei dewisiadau polisi yn hytrach na thrwy fuddsoddi arian cyhoeddus i ddenu'r buddsoddiad hwnnw.

## Gweithio o Bell

**19.** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi cynllun i annog pobl i dreulio mwy o amser yn gweithio gartref, neu'n agos i'w cartref. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i geisio "targed o 30% ar gyfer gweithio o bell" a "datblygu hybiau gweithio o bell newydd mewn cymunedau." [19]

**20.** Mae papur tystiolaeth y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol yn nodi: "O ystyried y dewisiadau anodd rydym wedi'u gwneud yn y gyllideb hon, nid oes hyblygrwydd ariannol yn y BEL Partneriaethau Cymdeithasol i ddarparu dyraniad penodol ar gyfer y gwaith hwn."[20]

**21.** Fodd bynnag, mae'n mynd ymlaen i nodi: "ar lefel ymarferol, llwyddwyd i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Rydym wedi sefydlu rhwydwaith o ganolfannau gweithio o bell, wedi cyhoeddi canllawiau ac astudiaethau achos gweithio o bell, ac rydym yn monitro'r targed o 30%".[21]

**22.** Mae'r papur yn cyfeirio at y dudalen ar gyfer "Dod o hyd i'ch canolfan gweithio o bell leol" ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r dudalen yn nodi 45 o hybiau ar draws 16 awdurdod lleol sy'n agored i'r cyhoedd ac un hwb sydd ar agor i weithwyr y sector cyhoeddus yn unig.[22] Ym mhapur y Gweinidog, nodir: "Mae'n amlwg bod angen gwaith parhaus i gynnal hyn i gyd ac, yn benodol, ehangu'r canolfannau, parhau i ymgysylltu â phartneriaid i ddylanwadu ar ymddygiad, a rhannu arferion da."[23]

**23.** Ymhelaethodd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ar hyn yn ystod sesiwn y Pwyllgor ar y Gyllideb Ddrafft, gan ddweud:

> "We'll still deliver [remote working policy] through our social partnership networks and the work that we, perhaps, do with the UK Government and their Employment Rights Bill in this space. So, I won't be dedicating a

[19] Llywodraeth Cymru – Y Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad
[20] Tystiolaeth ysgrifenedig – y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol
[21] Tystiolaeth ysgrifenedig – y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol
[22] Llyw.Cymru Dod o hyd i'ch canolfan gweithio o bell leol
[23] Tystiolaeth ysgrifenedig – y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol

particular budget to remote working but we'll go on working with the networks that we have to promote fairness."[24]

### Ein barn ni

Gan fod y Gweinidog o'r farn bod ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ynghylch gweithio o bell wedi'u cyflawni, byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb cael deall pa effaith y mae'r gwaith a wnaed ar yr amcanion hyn, a'r cyllid a wariwyd arno mewn cyllidebau blaenorol, wedi'i chael. Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai hwn yn amser priodol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi dogfen werthuso yn nodi'r hyn y mae'r Llywodraeth a'i phartneriaid wedi'i fuddsoddi, sut y cyflawnwyd yr ymrwymiadau, yr effaith y mae hyn wedi'i chael ac unrhyw wersi a ddysgwyd.

Mae gan yr Aelodau hefyd bryderon am sut y gellir bwrw ymlaen, heb gyllid penodol, â'r gwaith sydd ei angen, yn ôl yr hyn a nododd y Gweinidog, i gynnal ac ehangu'r canolfannau.

**Recommendation 6.** Gan fod Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod wedi cyflawni ei hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu ynghylch gweithio o bell, dylai gynnal a chyhoeddi gwerthusiad o'i gwaith yn y maes hwn. Dylai'r ddogfen werthuso, o leiaf, nodi'r hyn a wariwyd, sut y cyflawnwyd yr ymrwymiadau, yr effaith a gafodd hyn ac unrhyw wersi a ddysgwyd. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn cynnal ei chyflawniadau o ran gweithio o bell wrth symud ymlaen, yn enwedig gan nad oes cyllideb ar gael ar gyfer y dasg honno.

## Twristiaeth

**24.** Mae Llinell Gwariant Cyfalaf y Gyllideb Dwristiaeth wedi cynyddu £1 miliwn o gymharu â'r gyllideb ddiwethaf. Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi rhywfaint o fanylion am y cynnydd hwnnw gan nodi: "Cynnydd o £1m, gan ddarparu buddsoddiad cyfalaf wedi'i gynllunio o £6m mewn prosiectau twristiaeth strategol, cronfa y Pethau Pwysig ar gyfer gwelliannau ar raddfa fach i'r seilwaith twristiaeth, a chronfa lliniaru effeithiau'r tywydd i ymateb i bryderon a godwyd gyda ni gan atyniadau ymwelwyr am effaith tywydd gwael ar eu

[24] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 60

busnesau."[25] Dylid nodi mai dim ond i awdurdodau lleol a Pharciau Cenedlaethol y mae cronfa y Pethau Pwysig ar gael[26]

**25.** Mae effaith gronnus polisi Llywodraeth Cymru ar y sector twristiaeth yn fater a godwyd gyda'r Pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys polisïau newydd sydd wedi'u hanelu'n benodol at y sector megis newidiadau i reolau'r dreth gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i lety gwyliau gael eu meddiannu am fwy o ddiwrnodau a'r Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) sydd ar ei hynt drwy'r Senedd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae hefyd yn cynnwys polisïau megis y Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) sy'n ei gwneud yn ofynnol i fusnesau twristiaeth, gan gynnwys darparwyr llety, newid sut y maent yn didoli eu gwastraff a phenderfyniadau ynghylch buddsoddi mewn seilwaith.[27]

**26.** Trafododd Cymdeithas Broffesiynol Hunanddarparwyr y DU, Cymru y materion hyn yn ei thystiolaeth i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb Ddrafft gan ddweud:

> *"Policy decisions are made in silos with no consideration of other policies affecting the same target audience. The result is a tsunami of policies affecting individual Welsh people, businesses and families with irreparable negative effects."*[28]

**27.** Pan holwyd yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch bwriad Llywodraeth Cymru ar gyfer y buddsoddiad hwnnw o £1 miliwn, esboniodd y bydd yr arian hwnnw i gyd yn darparu cronfa gyfalaf i fusnesau twristiaeth Cymru allu diogelu eu hunain at y dyfodol, yn enwedig o safbwynt diogelu eu hunain rhag y tywydd.[29]

**28.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet y penderfyniad hwn:

> *"We always try and aim to be as flexible as we can in the support that we provide, but, equally, you know, we have to ensure that, when we're providing public money to businesses or organisations, we are expecting something very clear from that money as well. I think it's incumbent on us to do that. And I think that, in terms of the support*

[25] Tystiolaeth ysgrifenedig – Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
[26] Llywodraeth Cymru - Nodiadau Cyfarwyddyd Cronfa y Pethau Pwysig
[27] MWT Cymru – A reflection on meeting with the Economy, Trade and Rural Affairs Committee (Saesneg yn unig)
[28] Ymateb Cymdeithas Broffesiynol Hunanddarparwyr y DU, Cymru i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 (Saesneg yn unig)
[29] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 82

> *that we can offer to help businesses become more sustainable, which is the purpose here, trying to address some of those weather challenges, which are likely only to get more challenging in future years".*[30]

**29.** Aeth ymlaen i ddweud bod y Llywodraeth yn cynnig ystod eang iawn o gefnogaeth: "…So, there is a balance, I think, when we're setting up specific grant schemes in order to respond to specific challenges or Welsh Government desires in terms of more sustainability for the sector, whereas the wider support that we provide through Business Wales, that is very, very open, and that does work with individuals as well. So, it's that balance between that Business Wales very wide support but then specific grants to try and achieve something that is in line with the Welsh Government's aspirations in terms of sustainability, but also listens to the sector."[31]

**30.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galed iawn ar eu rhan i ddod â thwristiaid i mewn i Gymru, ac i sicrhau eu bod yn cael profiad da tra byddant yma.[32]

### Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod hyder busnesau yn y sector twristiaeth yn isel. Mae'r Aelodau'n cydymdeimlo â dadl y darparwyr nad yw effaith gyfunol polisïau ar eu sector yn cael ei hystyried am fod polisïau'n cael eu datblygu ar wahân o fewn Llywodraeth Cymru.

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cefnogi'r sector twristiaeth yn ariannol i addasu i'r amgylchedd rheoleiddio newydd. Rhaid i hyn gynnwys polisïau uniongyrchol newydd sydd wedi'u hanelu at y sector ond hefyd reoliadau cyffredinol fel y polisi ailgylchu newydd a fydd yn effeithio ar y sector.

Mae angen i gefnogaeth i fusnesau twristiaeth fod yn hyblyg. Bydd hyn yn galluogi gweithredwyr i wneud penderfyniadau a fydd yn caniatáu iddynt dyfu eu busnes, gan arwain yn ei dro at sefyllfa lle gall twristiaeth barhau i chwarae'r rôl allweddol sydd ganddi wrth gefnogi economi Cymru.

**Recommendation 7.** Wrth bennu ei chyllideb a datblygu cynlluniau cymorth ariannol ar gyfer y sector twristiaeth, rhaid i Lywodraeth Cymru roi cyfrif am yr

[30] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 84
[31] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 86
[32] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 96

holl faich rheoleiddio a wynebir gan y diwydiant, nid dim ond rheoliadau sydd wedi'u targedu'n uniongyrchol at ddarparwyr twristiaeth.

**Recommendation 8.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid ar gyfer twristiaeth yn ddigon hyblyg fel y gellir ei ddefnyddio i ymateb i anghenion busnes.

## Cefnogaeth i'r rhai y mae cau ffwrneisi chwyth Port Talbot yn effeithio arnynt

**31.** Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn defnyddio llawer o raglenni gwahanol i gefnogi pobl y mae penderfyniad TATA i gau'r ffwrneisi chwyth yng ngwaith dur Port Talbot yn effeithio arnynt. O safbwynt Llywodraeth Cymru, mae'r rhain yn cynnwys ReAct+, Cymunedau am Waith+, Cyfrifon Dysgu Personol, Cronfa Ddysgu Undebau Cymru, a chymorth drwy Busnes Cymru os yw unigolion am ddechrau busnes neu ddod yn hunangyflogedig.[33]

**32.** Mae disgwyl i'r mwyafrif o ddiswyddiadau o safleoedd Tata yn y DU ddigwydd yn ystod misoedd cyntaf 2025.[34] Ym mhapur yr Ysgrifennydd Cabinet, nodir fel a ganlyn:

> *"Y gyllideb arfaethedig ar gyfer rhaglen ReAct+ yn 2025-26 yw £7.425m, ac rydym yn bwriadu cael digon o gyllideb i reoli'r gwaith o drosglwyddo'r galw gan y rheini y mae dileu swyddi o Tata Steel UK a'r gadwyn gyflenwi yn effeithio arnynt i 2025-2026."*[35]

**33.** Yn sesiwn dystiolaeth y Gyllideb Ddrafft, gofynnodd yr Aelodau i'r Ysgrifennydd Cabinet a'r Gweinidog am ragor o wybodaeth am y cymorth a ddarperir i weithwyr. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth yr Aelodau:

> *"So far, I think around 15 Tata employees have been supported through the ReAct+ programme, and 41 people whose jobs have been made redundant from the supply chain have also accessed those ReAct+ grants. I would say, though, that we are still, I think, fairly early on in the process in terms of the impact on employees, so there'll be more that we need to offer in support for future years, which is why we've maintained the budget in this particular space for the next financial year as well."*[36]

[33] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 28 Awst 2024
[34] Llywodraeth y DU, Datganiad ar ran Bwrdd Pontio Tata Steel/Port Talbot, 19 Rhagfyr 2024
[35] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth – y Gyllideb Ddrafft – Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
[36] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 41

**34.** Aeth yn ei blaen i ddweud:

> *"it's definitely the case that the support that we're trying to put in alongside the UK Government is there to try and meet individuals' needs and aspirations. So, I think all of that is particularly positive … in another month we can provide committee with some further information then in terms of the support that's available to individuals and the numbers coming through, because we would expect that to be increasing as we move into the spring."*[37]

**35.** Ychwanegodd swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet fod Busnes Cymru wedi cael £2 miliwn o'r cyllid gan Lywodraeth y DU a ddyrannwyd i'r Bwrdd Pontio, nad yw'n ymddangos yn y gyllideb ddrafft. Bydd hyn yn cefnogi cwmnïau cadwyn gyflenwi a gweithwyr TATA sydd am ddechrau eu busnesau eu hunain.[38]

### Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hanfodol bwysig bod y cronfeydd cyllid hyn, sydd â'r pwrpas o gefnogi'r rhai y mae cau ffwrneisi chwyth Port Talbot yn effeithio arnynt, yn cael eu cefnogi'n dda a bod arian wrth gefn i gynyddu'r cymorth naill ai drwy raglenni sy'n bodoli eisoes neu drwy greu rhai newydd.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'n hawdd nac yn glir i weld yn y Gyllideb Ddrafft beth yn union sy'n cael ei wario i gefnogi pobl a chymunedau y mae cau'r ffwrneisi chwyth yn effeithio arnynt. Er bod gwybodaeth am y dyraniad drwy ReAct+, mae diffyg eglurder ynghylch faint o gymorth a ddarperir drwy'r ffrydiau ariannu eraill. Gan fod hon yn un o flaenoriaethau allweddol y Llywodraeth, mae'r Aelodau'n teimlo y dylid adlewyrchu hynny yn nogfennau'r Gyllideb.

**Recommendation 9.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa waith cynllunio ariannol wrth gefn y mae wedi'i wneud ynghylch cynyddu'r cymorth i'r rhai y mae cau ffwrneisi chwyth Port Talbot yn effeithio arnynt, pe bai angen gwneud hynny.

**Recommendation 10.** Dylai dogfennaeth y gyllideb nodi'n union faint sy'n cael ei ddyrannu, mewn ffordd glir a hawdd ei chanfod, i gefnogi'r rhai y mae cau

[37] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 46
[38] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 47

ffwrneisi chwyth Port Talbot yn effeithio arnynt ac o ba rai o linellau'r gyllideb y daw'r arian.

## Cymoedd Technoleg

**36.** Yn ôl y Weledigaeth ar gyfer y Cymoedd Technoleg gan Lywodraeth Cymru: "Bydd gwireddu'r weledigaeth ar gyfer y Cymoedd Technoleg yn creu o leiaf 1,500 o swyddi cynaliadwy ledled y cymoedd ym maes technolegau newydd a gweithgynhyrchu uwch, gyda'r rhan fwyaf ohonynt ym Mlaenau Gwent... Mae £100 miliwn wedi'i neilltuo gan Lywodraeth Cymru dros ddeng mlynedd er mwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer y Cymoedd Technoleg".[39] Mae £5 miliwn o gyfalaf a £1.76 miliwn o refeniw wedi'i ddyrannu i'r Cymoedd Technoleg ar gyfer 2025-26.[40]

**37.** Ym mhapur yr Ysgrifennydd Cabinet, nodir bod ymrwymiad i fuddsoddi £100 miliwn yn y Cymoedd Technoleg tan 2028. Mae'n tynnu sylw at un o'r buddsoddiadau mwyaf a wnaed gan Lywodraeth Cymru, sef dros £16 miliwn sydd wedi'i ymrwymo i Gampws Technoleg Thales yng Nglynebwy, sy'n "darparu cyfleusterau arloesol o'r radd flaenaf sy'n ymchwilio i atebion i seibergadernid seilwaith cenedlaethol critigol".

**38.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth yr Aelodau:

> *"Since the first allocation, I think that the programme has now invested over £40 million, so, we would obviously want to continue investing and supporting jobs and growth in the area. To date, the programme has created 298,000 sq ft of new and refurbished floor space".*[41]

**39.** Aeth yr Ysgrifennydd Cabinet ymlaen i ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau tenant newydd ar y campws yn ddiweddar ac y byddai'n ysgrifennu at y Pwyllgor â rhagor o fanylion am gynnydd Llywodraeth Cymru gyda'r Cymoedd Technoleg.[42]

[39] Llyw.Cymru Gweledigaeth y cymoedd technoleg
[40] Tystiolaeth ysgrifenedig – Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
[41] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 128
[42] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 128

## Ein barn ni

Lansiwyd rhaglen y Cymoedd Technoleg yn 2017 a disgwylir iddi redeg tan 2028, sy'n golygu bod tua 70% o amserlen y prosiect wedi mynd heibio. Er bod yr Aelodau'n deall bod gwariant rhaglenni'n tueddu i gynyddu tuag at ddiwedd eu hoes, mae'r Pwyllgor yn pryderu mai dim ond tua 40% o'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer prosiect y Cymoedd Technoleg sydd wedi'i fuddsoddi, a hoffai gael rhagor o fanylion am gynnydd tuag at y nod o greu 1,500 o swyddi cynaliadwy drwy'r rhaglen. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y gyfradd araf hon o fuddsoddiad yn golygu efallai na fydd Llywodraeth Cymru yn gallu buddsoddi'r dyraniad cyllideb llawn mewn ffordd ystyrlon.

**Recommendation 11.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni ei hymrwymiadau i wario £100 miliwn ar raglen y Cymoedd Technoleg erbyn 2028, a nodi faint o gynnydd sydd wedi'i wneud tuag at y nod o greu 1,500 o swyddi cynaliadwy drwy'r rhaglen.

# 3. Masnach

**40.** Mae llinellau BEL sy'n gysylltiedig â masnach i'w gweld mewn dau MEG:

- dwy BEL Rheolaethau'r Ffin (MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig); a
- BEL Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi (MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio).

## Ymadael â'r UE

**41.** Nid yw'r BEL 'Pontio Ewropeaidd' yn ymddangos yn nogfennau'r Gyllideb Ddrafft am y tro cyntaf ers ymadawiad y DU â'r UE. Ar gyfer cyllideb derfynol 2024-25, trosglwyddwyd dyraniad cyllideb ddrafft o £20.737 miliwn o fewn y MEG (Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu) i gostau staff, sef cyfanswm o £241.228 miliwn.

**42.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog:

> *"Mae ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i effeithio ar Gymru, sydd wedi arwain at feysydd gwaith newydd hanfodol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Roedd rhai wedi'u disgwyl, fel paratoi ein ffiniau, ond mae effaith newidiadau eraill ar draws y portffolio i'w phennu o hyd. Mae'r cyd-destun yn parhau i esblygu.*
>
> *Mae angen i ni barhau i addasu ac ymateb i'r ffyrdd newydd hyn o weithio i Gymru, o ran ein rôl yn y DU a'n hymgysylltiad â'r UE a gwledydd masnachu eraill. Mae angen cynnal cyfathrebu rhynglywodraethol effeithiol ar gyfer hyn. […]*
>
> *Ymhellach, mae'r peirianwaith sy'n sail i gytundeb masnach a chydweithredu'r UE yn parhau i gael ei ddatblygu ac mae angen ystyriaeth ac ymdrech i sicrhau ein bod yn parhau i ymgysylltu'n effeithiol. Mae angen dealltwriaeth o'r amgylchedd masnachu sy'n datblygu ac unrhyw effeithiau posibl, nid yn unig o ran cytundeb*

> *masnach a chydweithredu'r UE, ond hefyd gan ystyried cytundebau masnachu newydd â gwledydd eraill."*[43]

**43.** Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet fod tîm Polisi Masnach Llywodraeth Cymru bellach yn arwain ar waith sy'n ymwneud â'r cytundeb masnach a chydweithredu, gan ymgysylltu â Llywodraeth y DU o ran trafod Cytundebau Masnach Rydd newydd, a'r drefn o weithredu'r cytundebau hynny yng Nghymru. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai hyn yn cael ei gyflawni "gan adnoddau staff presennol".[44] Yn ystod sesiwn graffu gyffredinol ym mis Tachwedd, cadarnhaodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd fod y cytundeb masnach a chydweithredu yn cael ei drin yn union yr un ffordd ag unrhyw gytundeb masnach.[45]

**44.** Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd fod busnesau sy'n allforio i'r UE ar hyn o bryd, neu'n bwriadu gwneud hynny, yn cael eu cefnogi gan Dîm Allforio Llywodraeth Cymru.[46]

**45.** Cydnabu'r Dirprwy Brif Weinidog fod ymadael â'r UE wedi effeithio ar y gyllideb mewn nifer o ffyrdd. Dywedodd wrthym:

> *"Brexit for us has a long and continuing tail. We're having to still wrestle through some really difficult areas, but, meanwhile, we've turned the page and we've, successfully I think, argued for funding that can help keep stability going forward in a range of areas."*[47]

**46.** Tynnodd y Dirprwy Brif Weinidog sylw at nifer o feysydd lle'r oedd angen gwaith ychwanegol, gan gynnwys rheoleiddio cemegau a gwaith gyda chymunedau arfordirol, yn enwedig yn ymwneud â physgodfeydd, a nododd fod y gwaith yn ddwys o ran adnoddau. Esboniodd fod angen defnyddio adnoddau hefyd wrth 'ailosod' perthnasoedd rhwng y DU a'r UE. Gan gyfeirio at golli cyllid yr UE, ychwanegodd ei fod wedi dadlau'n gryf dros 'gwantwm' o gyllid i roi

---

[43] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth – y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
[44] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth – y Gyllideb Ddrafft – Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
[45] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraff 331
[46] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth – Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
[47] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 145

sefydlogrwydd i sectorau gan gynnwys amaethyddiaeth, datblygu gwledig a physgodfeydd.[48]

**47.** Cytunodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai'r hyn sy'n heriol yw'r diffyg cyllid ar ôl ymadael â'r UE:

> *"We're never going to be able to plug those kinds of gaps, so the quantum really is the challenge. But then, in terms of how we respond, really, it's less about the budget and more about the kind of work that our teams do."*[49]

### Ein barn ni

Mae'n amlwg o dystiolaeth y Gweinidogion bod yna oblygiadau o hyd, yn sgil ymadawiad y DU â'r UE, i Gymru a'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu ei hadnoddau. Er bod llai o gyllid, mae'n bwysig sicrhau ei fod yn cael ei ystyried a'i ddefnyddio i gynhyrchu'r allbynnau mwyaf buddiol i fasnach Cymru. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod tîm Polisi Masnach Llywodraeth Cymru wedi ysgwyddo nifer o gyfrifoldebau ychwanegol heb gael adnoddau ychwanegol. Mae hyn yn peri pryder arbennig o gofio bod y Dirprwy Brif Weinidog yn cydnabod faint o adnoddau sydd eu hangen i ymateb i 'waddol hirbarhaol' Brexit mewn nifer o feysydd.

Er bod yr Aelodau'n croesawu pa mor agored oedd y Gweinidogion ynghylch y materion hyn wrth roi tystiolaeth lafar, mae'n bwysig bod y Pwyllgor yn deall yn llawn oblygiadau'r newidiadau a ddisgrifir uchod os nad oes rhagor o adnoddau. O ystyried pwysigrwydd ac ehangder y cytundeb masnach a chydweithredu, byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am sut y caiff ei gydlynu ar draws adrannau Llywodraeth Cymru.

**Recommendation 12.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE yn cael ei gydlynu ar draws adrannau Llywodraeth Cymru ers i'w thîm masnach ymgymryd â'r cyfrifoldeb ychwanegol am ymadael â'r UE.

## Polisi ffiniau

**48.** Mae dwy BEL Rheolaethau'r Ffin yn y MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: y BEL ar gyfer adnoddau a BEL newydd ar gyfer cyfalaf.

[48] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 142-145
[49] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 147

**49.** Mae'r ddwy BEL yn cefnogi'r gwaith o gyflawni cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru ym maes rheolaethau'r ffin. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyfundrefn fewnforio'r DU ar ôl Brexit ar waith yn raddol, Model Gweithredu Targed y Ffin[50] a chyllid ar gyfer safleoedd rheolaethau'r ffin[51] i gyflawni rheolaethau masnach Model Gweithredu Targed y Ffin. Y bwriad yw sefydlu tri safle rheolaethau'r ffin ym mhorthladdoedd Caergybi, Doc Penfro ac Abergwaun.

**50.** Ym mis Hydref 2024, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar y Model Gweithredu Targed y Ffin a oedd yn tynnu sylw at yr anghydfod parhaus ynghylch costau rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chostau rhedeg safleoedd rheolaethau'r ffin.[52]

## Goblygiadau posibl cytundeb rhwng y DU a'r UE ar fesurau iechydol a ffytoiechydol

**51.** Mae'r Pwyllgor yn un o bedwar o bwyllgorau'r Senedd sy'n cymryd rhan mewn ymgynghoriad ar yr adolygiad sydd ar ddod o weithrediad y cytundeb masnach a chydweithredu. Mae wedi dilyn blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr adolygiad yn agos, sy'n cynnwys cytundeb rhwng y DU a'r UE ar fesurau iechydol a ffytoiechydol. Yn dibynnu ar ei gynnwys, gallai cytundeb ar fesurau iechydol a ffytoiechydol leihau, neu hyd yn oed ddileu, yr angen am reolaethau masnach penodol ar y ffin.

**52.** Yn ystod sesiwn graffu gyffredinol ym mis Tachwedd 2024, dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

> *"we still need to plan for the eventuality of having border controls, but, one day, hoping that there would be an agreement in place. [...] If the agreement fulfilled our expectations, potentially, in the future, [border controls] might not be required, but there could well be a period in the interim where it would be."*[53]

**53.** Mae rheolaethau ar fesurau iechydol a ffytoiechydol yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig ac yn un o gyfrifoldebau Gweinidogion Cymru, ond mae trafodaethau masnach rhwng y DU a'r UE yn fater a gedwir yn ôl.

[50] Ymchwil y Senedd, Cymru a'r model newydd ar gyfer ffiniau masnach y DU, Hydref 2024
[51] Ymchwil y Senedd, Pam fod angen safleoedd rheoli ffiniau ar Gymru?, Mawrth 2023
[52] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Model Gweithredu Targed y Ffin: Y darlun yng Nghymru, Hydref 2024
[53] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 14 Tachwedd 2024, paragraff 317-319

## BEL adnoddau Rheolaethau'r Ffin

**54.** Y dyraniad ar gyfer y BEL adnoddau Rheolaethau'r Ffin yw £4.1 miliwn. Mae hynny'n ostyngiad o 36.5% (£2.356 miliwn) o gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig ar gyfer 2025-26, sef £6.456 miliwn.

**55.** Ar gyfer cyllideb ddrafft a chyllideb derfynol 2024-25, y dyraniad oedd £6.426 miliwn.

**56.** Gwnaed addasiad i'r llinell sylfaen o £30,000 ar gyfer 2025-26, gan arwain at linell sylfaen ddiwygiedig o £6.456 miliwn. Gwnaed trosglwyddiad o £2.713 miliwn rhwng grwpiau MEG allan o'r BEL, ac yna trosglwyddiad o £357,000 i'r BEL o'r cronfeydd wrth gefn (a gyfrannwyd gan Lywodraeth y DU). Mae hyn yn gadael £4.1 miliwn ar gyfer dyraniad Cyllideb Ddrafft 2025-26.

**57.** Mae'r BEL o dan sylw wedi dychwelyd i'r MEG Materion Gwledig, ar ôl cael ei symud i MEG yr Economi ar gyfer cyllideb 2024-25.

**58.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrthym fod y gostyngiad yn adlewyrchu'r anghenion presennol, yn hytrach na thoriad:

> *"It is to reflect what we need for the year ahead in 2025-26. So, our assessment for the year ahead is that that will meet those essential costs."*[54]

**59.** Ychwanegodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru mai'r dyraniad yn y gyllideb yw amcangyfrif gorau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sefyllfa sydd ohoni:

> *"knowing that the date at which we would go live with physical checks keeps getting put back, and there are some items of expenditure that we just won't need until we are closer to the time, for example. So, it's a function, if you like, of the shifting programme plan and the point at which we expect expenditure to fall as much as what the total cost will actually be in due course, and, as the Deputy First Minister mentions, the conversations about who's actually going to pay for it between us and the UK Government."*

**60.** Nododd y Dirprwy Brif Weinidog nad oedd Fframwaith Windsor yn datrys y problemau parhaus. Dywedodd:

[54] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 162

> *"I'm really conscious of the fact that the last thing we want to do is undermine where we've got to in the Windsor Framework, undermine sensitivities about trade in Northern Ireland and with Éire and so on and so forth. […] it's good that the UK Government recognises our challenges as well as the Northern Ireland context, because our challenges remain, as they always have been, the issue of security of goods coming in and out."*[55]

### BEL cyfalaf Rheolaethau'r Ffin

**61.** Dyrannwyd £28.955 miliwn, a drosglwyddwyd o'r cronfeydd wrth gefn, i'r BEL cyfalaf newydd ar gyfer Rheolaethau'r Ffin. Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weinidog mai cyfraniad gan Lywodraeth y DU oedd hwn:

> *"Mae'r gyllideb yn cynnwys cyfraniad Trysorlys Ei Fawrhydi ar gyfer y costau adeiladu yn unig o £28,955k o arian cyfalaf a £357k o arian refeniw."*[56]

**62.** Dyma'r swm mwyaf y cynlluniwyd ei wario hyd yma ar barodrwydd safleoedd rheolaethau'r ffin Cymru.

### Anghysondeb o ran teitl BEL

**63.** Bu rhywfaint o anghysondeb o ran teitl y BEL Tystiolaeth Strategol, Monitro, a Chysylltiadau Rhynglywodraethol. Roedd yn arfer cynnwys 'Ffiniau' fel rhan o'r teitl ond nid yw'n cynnwys hynny mwyach. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog yn parhau i gyfeirio at y BEL Tystiolaeth Strategol, Ffiniau a Chysylltiadau Rhynglywodraethol.

### Ein barn ni

Gwelwyd gostyngiad sylweddol i'r BEL Rheolaethau'r Ffin yn y Gyllideb Ddrafft. Mae'r Pwyllgor yn nodi esboniad y Dirprwy Brif Weinidog y dylid ystyried y swm fel adlewyrchiad o'r angen. Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor wedi'i argyhoeddi bod ymateb y Dirprwy Brif Weinidog yn mynd i'r afael yn llawn ag effaith

---

[55] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 170
[56] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth – y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

chwyddiant, gan gynnwys costau uwch megis staff a chyfleustodau, ar y gyllideb.

Mae'n siomedig nad yw'r anghydfod rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch ariannu'r gost o redeg safleoedd rheolaethau'r ffin wedi'i ddatrys eto. Byddai'r Pwyllgor yn annog y ddwy lywodraeth i weithio gyda'i gilydd i ddatrys pethau cyn gynted â phosibl.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r anghysondeb yn nheitl y BEL Tystiolaeth Strategol, Monitro a Chysylltiadau Rhynglywodraethol yn nhystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw teitl y BEL yn gywir yn y Gyllideb ac a yw 'Ffiniau' wedi'i ddileu. Os felly, dylai nodi unrhyw oblygiadau ymarferol, os o gwbl, yn sgil ei ddileu.

**Recommendation 13.** Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gydweithio i ddod o hyd i ateb mewn perthynas ag ariannu'r gost o redeg safleoedd rheolaethau'r ffin cyn gynted â phosibl.

**Recommendation 14.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw teitl y BEL yn gywir yn y Gyllideb ac a yw 'Ffiniau' wedi'i ddileu. Os felly, dylai nodi unrhyw oblygiadau ymarferol, os o gwbl, yn sgil ei ddileu.

## Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi

**64.** Mae un BEL ym MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio ar gyfer Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi. Dywed papur Ysgrifennydd y Cabinet fod y BEL yn:

> *"galluogi cyflawni Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Allforio, i sicrhau twf tymor hir yn allforion Cymru; a gweithgareddau i gefnogi hybu Cymru fel lleoliad ar gyfer mewnfuddsoddi."*[57]

**65.** Mae Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio Llywodraeth Cymru yn un o bum cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'i Strategaeth Ryngwladol (2020-2025). Gyda'i gilydd, mae'r strategaeth a'r cynlluniau'n cynnwys dros 270 o dargedau a chamau gweithredu cyffredinol a phenodol. Mae'r rhai sydd yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio yn amrywio o gynyddu cyfraniad allforion at economi Cymru, darparu gwasanaeth llinell gymorth dros y ffôn, a chynnal cynhadledd allforio flynyddol.

[57] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth – Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

**66.** Dyraniad y BEL ar gyfer Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi yw £3.752 miliwn (refeniw), sef yr un swm ag yn y gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol ar gyfer 2024-25. Nid yw'r swm yn ddarostyngedig i addasiadau i'r llinell sylfaen ar gyfer 2025-26.

**67.** Rhwng cyllideb ddrafft a chyllideb derfynol 2023-24, gwelwyd 10.5% o ostyngiad yn y BEL hon (£440,000 yn llai na'r dyraniad gwreiddiol o £4.192 miliwn fel rhan o broses ailflaenoriaethu Llywodraeth Cymru).

**68.** Nid yw'r manylion yn y BEL wedi newid. Mae'r BEL yn cynnwys:

- £3.572 miliwn i gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio; a
- £0.180 miliwn ar gyfer mewnfuddsoddi.

**69.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Mae'r £3.572m o gyllid a ddyrannwyd i gyflawni'r Cynllun yn sicrhau bod gennym ni amrywiaeth o raglenni allforio a ddarperir gan Dîm Allforio Llywodraeth Cymru i helpu busnesau gyda'u taith allforio – o ysbrydoli busnesau i allforio; meithrin y gallu i allforio; dod o hyd i gwsmeriaid tramor; a chyrraedd marchnadoedd tramor. […]*
>
> *Mae'r ystadegau allforio dros dro diweddaraf yn dangos mai gwerth allforion nwyddau Cymru yw £18.6bn yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2024, £1.8 bn (9.0%) yn is na'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2023. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd darparu cymorth cynhwysfawr i fusnesau Cymru i ddatblygu er mwyn sbarduno twf pellach yn allforion Cymru.*
>
> *Mae'r Prif Weinidog wedi cytuno y caiff oes y Strategaeth Ryngwladol ei hymestyn y tu hwnt i 2025, hyd at ddiwedd tymor y Senedd hon. Bydd yn nodi ei blaenoriaethau cyflawni ar gyfer gweddill tymor y Strategaeth, gan gynnwys y cyfnod estynedig, ddechrau'r flwyddyn nesaf."*[58]

[58] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth – Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

**70.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y toriad yn y gyllideb ar gyfer y Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio yn y flwyddyn flaenorol wedi effeithio ar rai o'r pethau y gall Llywodraeth Cymru eu gwneud:

> *"…it has had an impact on what we've been able to deliver, but it's also meant that we've looked to refocus and prioritise the actions that we take around the things that we know are most important to businesses […] we have listened, really, to see what's most effective for businesses and what's most helpful to them."*[59]

**71.** Yn benodol, nododd yr Ysgrifennydd Cabinet mai dim ond adnewyddu ei rhaglen cwmnïau allforio enghreifftiol bresennol y mae Llywodraeth Cymru wedi gallu ei wneud, yn hytrach na chreu carfan newydd o gwmnïau enghreifftiol, a dywedodd fod llai o ddigwyddiadau wedi'u cynnal yng Nghymru a fyddai wedi canolbwyntio ar ddatblygu allforio.[60]

**72.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad allanol o'i Chynllun Gweithredu ar gyfer Allforio, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn haf 2025.

**73.** Nododd un o swyddogion Llywodraeth Cymru y byddai canfyddiadau cynnar y gwerthusiad yn cyfrannu at ystyriaeth y Prif Weinidog o'r blaenoriaethau cyflawni ar gyfer y Strategaeth Ryngwladol, a ddisgwylir yn gynnar yn 2025:

> *"the analysis of the export action plan and delivery being undertaken by an external company is actually looking at those very aspects, the four steps that we talk about in the export journey: what's effective for a business and what's not, what should we do more of and what should we do less of. To reassure, we're having regular conversations with the researchers to understand their early findings so that we can feed that into the delivery plan for the First Minister."*[61]

[59] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 181
[60] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 180
[61] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 193

## Enghreifftiau o allbynnau

**74.** Rhestrodd yr Ysgrifennydd Cabinet allbynnau Tîm Allforio Llywodraeth Cymru (rhwng mis Ebrill 2021 a mis Tachwedd 2024), gan gynnwys:

- 4,303 o gyfarfodydd un-i-un rhwng Cynghorwyr Masnach Ryngwladol arbenigol Llywodraeth Cymru a busnesau yng Nghymru;
- sicrhau £309 miliwn o werthiant allforio o ganlyniad uniongyrchol i gymorth allforio Llywodraeth Cymru;
- cyflwyno 63 o deithiau masnach tramor, gan gefnogi 540 o gynadleddwyr;
- cyflwyno 327 o brosiectau rhaglenni allforio, a oedd yn cwmpasu'r rhaglenni ymchwil i'r farchnad allforio Datblygu Masnach Ryngwladol a Chyfleoedd Masnach Ryngwladol; a
- darparu 437 o grantiau Ymweliadau Tramor i Ddatblygu Busnes i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru er mwyn iddynt ymweld â marchnadoedd rhyngwladol a sioeau masnach a'u harchwilio.[62]

**75.** Eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog fod £0.5 miliwn yn rhagor wedi'i ddyrannu drwy'r cyllidebau bwyd a diod i'w fuddsoddi ym mroceriaeth Blas Cymru i hybu allforion a mewnfuddsoddi. Cadarnhaodd y bydd y digwyddiad broceriaeth nesaf yn digwydd ym mis Hydref 2025 yng Nghanolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru, gyda thargedau uwch. Rhestrodd yr allbynnau a ganlyn o froceriaeth 2023:

- Croesawodd Cymru 276 o brynwyr masnach, gan gynnwys prynwyr rhyngwladol o 11 o wledydd, a 122 o fusnesau bwyd a diod o Gymru, gan gynnwys 15 o Sêr y Dyfodol.
- Cynhaliwyd tua 2,100 o gyfarfodydd masnach wedi'u trefnu rhwng prynwyr masnach a busnesau bwyd a diod o Gymru, a gynhyrchodd gwerth tua £38 miliwn mewn gwerthiannau sicr a phosibl. Datblygwyd tua 203 o gynhyrchion newydd ar gyfer manwerthu a gwasanaethau bwyd.[63]

---

[62] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth – Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

[63] Llywodraeth Cymru, papur tystiolaeth – y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

### Cau Porthladd Caergybi dros dro

**76.** Ym mis Rhagfyr 2024, bu rhaid i Borthladd Caergybi gau dros dro oherwydd difrod yn dilyn Storm Darragh. Tra oedd ar gau, cafodd masnach ei ddargyfeirio i borthladdoedd eraill y DU. Ailagorodd y Porthladd yn rhannol ar 16 Ionawr 2025. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd unrhyw ddadansoddiad economaidd wedi'i wneud o'r effaith ar fasnach yng Nghymru. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

> *"A lot of what passes through Holyhead flies down the A55 without really slowing down; it's not actually coming to Wales in the first place, most of it's passing straight through. So, we know, obviously, that people have diverted other ways, so there will be additional costs, additional fuel and that sort of thing, but we haven't been able to quantify that in respect of Wales specifically. I'm not sure that you ever would be able to do that in a way that specifically identifies those extra costs in a meaningful and reliable way."*[64]

### Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn nodi safbwynt yr Ysgrifennydd Cabinet ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio, ac yn croesawu'r ymdrechion a wnaed i ymgysylltu â rhanddeiliaid i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth cyn lleihau neu roi'r gorau i weithgarwch yn sgil toriadau yn y gyllideb. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Ysgrifennydd Cabinet ynghylch pwysigrwydd darparu cymorth cynhwysfawr i fusnesau Cymru i ddatblygu a sbarduno twf pellach yn allforion Cymru. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor yn gweithredu mewn amgylchedd geowleidyddol sy'n newid yn gyflym. Mae'r achosion diweddar o glwy'r traed a'r genau yn yr Almaen a'r newid yn arweinyddiaeth yr Unol Daleithiau yn ddwy enghraifft o pam y mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn ystwyth wrth gefnogi masnachwyr Cymru.

Mae'r Aelodau'n croesawu'n arbennig ymrwymiad yr Ysgrifennydd Cabinet yn ystod ei thystiolaeth lafar i roi diweddariad ysgrifenedig inni a fydd yn cadarnhau pa gamau gweithredu a thargedau yn y Cynllun Gweithredu ar

[64] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 156

gyfer Allforio sydd wedi'u cyflawni, a pha rai sy'n dal heb eu cyflawni o fewn tymor y Senedd hon.

**Recommendation 15.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio cyn gynted â phosibl ac erbyn diwedd tymor y gwanwyn hwn fan bellaf.

### Porthladd Caergybi

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod gwaith yn mynd rhagddo i asesu effaith cau Porthladd Caergybi. Er bod yr Aelodau'n cydnabod yr heriau sydd ynghlwm wrth gasglu data o'r fath, mae'n hollbwysig bod unrhyw effeithiau'n cael eu deall yn llawn, a dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gynlluniau sydd ganddi i liniaru'r effeithiau hynny, gan gynnwys a yw'n ystyried unrhyw newidiadau yn ei hymdriniaeth â'r Gyllideb Ddrafft o ganlyniad i hynny.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro'r sefyllfa yng Nghaergybi a'i goblygiadau fel rhan o'i waith parhaus.

**Recommendation 16.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud naill ai i'r dyraniad drafft neu i ffocws y gwariant arfaethedig o dan y BEL ar gyfer Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi i gefnogi busnesau y mae cau Porthladd Caergybi dros dro yn effeithio arnynt.

# 4. Materion Gwledig

## Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**77.** Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn fater y mae'r Pwyllgor hwn wedi rhoi llawer o sylw iddo ers iddo wneud gwaith ar Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, a bydd yn trafod hyn eto gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar 5 Chwefror 2025.

**78.** Nid yw'r dyraniad yn y gyllideb ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y disgwylir iddo gael ei lansio ym mis Ionawr 2026, wedi'i gyhoeddi eto. Ym mis Rhagfyr, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor ei fod wedi cael trafodaethau buddiol gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ar y gyllideb sydd ar ddod ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy oherwydd bod y cynllun, meddai, yn ymdrin nid yn unig â chynaliadwyedd y sector ffermio, ond hefyd â'r argyfyngau natur a hinsawdd. [65]

**79.** Yn eu hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb Ddrafft, galwodd NFU Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) am gynnydd sylweddol mewn cymorth amaethyddol o'r gyllideb bresennol, gan gyfeirio at bwysau chwyddiant. Mae NFU Cymru wedi rhoi ffigurau hanesyddol y PAC drwy gyfrifiannell chwyddiant Banc Lloegr ac wedi dod i'r casgliad y dylai fod cynnydd yn y gyllideb amaethyddol flynyddol o ychydig dros £500 miliwn ar gyfer Cymru.[66] Mae FUW wedi gwneud gwaith tebyg, ond mae'n defnyddio ffigurau gwahanol. Daw i'r casgliad y dylai'r ffigur hwn yn awr fod yn werth o leiaf £450 miliwn.[67] Comisiynodd yr RSPB, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Ymddiriedolaethau Natur asesiad economaidd annibynnol fel rhan o'u hadroddiad Maint yr Angen, a ddaeth i'r casgliad y byddai angen £594 miliwn ar Gymru bob blwyddyn dim ond i fodloni blaenoriaethau rheoli tir yn amgylcheddol.[68]

**80.** Yn sesiwn y Pwyllgor ar y gyllideb, cydnabu'r Dirprwy Brif Weinidog fod angen setliad amlflwydd ar gyfer cymorth ffermio er mwyn sicrhau sefydlogrwydd. Dywedodd wrth yr Aelodau:

---

[65] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Rhagfyr 2024, paragraff 398
[66] **Ymateb NFU Cymru i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2025-26** (Saesneg yn unig)
[67] **Ymateb FUW i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2025-26** (Saesneg yn unig)
[68] RSPB, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Ymddiriedolaethau Natur: **For farming, nature and climate**. (Saesneg yn unig)

> *"I think the UK counterparts are very seized with this as well, that we give that stability, not just in the farming, agricultural sector, but in wider sectors that we can plan on a multi-annual basis. This is consistently the discussion that I've had with farmers at the ministerial round-table with the SFS, but also wider out—as I've spoken to farmers—is the need to move to that. So, that's our intention. We're in a year in order to get there."*[69]

### Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor wedi holi'r Ysgrifennydd Cabinet droeon am drafodaethau cyllidebol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i sicrhau bod cyllid priodol ar gael i gyflawni uchelgeisiau'r Llywodraeth ar gyfer y cynllun. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod rhaid i'r cynllun gael ei ariannu'n briodol. Os na chaiff ei ariannu'n briodol, mae'r Aelodau'n pryderu na fydd ffermwyr yn ymgysylltu ac na fydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei nodau.

**Recommendation 17.** Dylid cynyddu cyllideb y Cynllun Ffermio Cynaliadwy o'r dyraniad cymorth amaethyddol presennol i adlewyrchu chwyddiant a hefyd y manteision a ddaw yn sgil y cynllun, gan gynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd. Wrth wneud hynny, dylai'r Dirprwy Brif Weinidog archwilio cyfrifiadau a wnaed gan undebau'r amaethwyr o ran chwyddiant amaethyddol a'r adroddiad Maint yr Angen wrth benderfynu ar gyllideb y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

**Recommendation 18.** Dylai'r Dirprwy Brif Weinidog gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch yr angen i bennu cyllidebau amlflwydd.

## TB Buchol

**81.** Mae ffermwyr yn cael iawndal am wartheg a gaiff eu lladd ar ôl canfod bod twbercwlosis buchol arnynt. O dan y drefn bresennol, mae prisiwr yn asesu'n unigol beth yw gwerth pob anifail ar y farchnad. Uchafswm prisiad anifail yw £5,000. Mae Llywodraeth Cymru wedi gorwario ar y gyllideb ar gyfer iawndal TB buchol ers 2015-2016 ac mae wedi disgrifio'r drefn bresennol fel un anghynaliadwy.[70]

[69] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 243
[70] Llyw.Cymru Rhaglen Ddiwygiedig ar gyfer Dileu TB

**82.** Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer TB Buchol yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r diwydiant i newid y drefn iawndal. Mae systemau iawndal eraill wedi'u cynnig gan Lywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar system o brisiadau tabl, lle defnyddir pris cyfartalog y farchnad i gyfrifo'r iawndal. Dywedodd Llywodraeth Cymru y gallai arbed £5.1 miliwn y flwyddyn drwy newid i gynllun taliadau tabl.[71]

**83.** Wrth graffu ar y gyllideb y llynedd, dywedodd y Gweinidog Materion Gwledig blaenorol wrth y Pwyllgor hwn ei bod yn gobeithio y byddai'r adolygiad o daliadau yn dechrau yn 2024[72] ac roedd ei thystiolaeth ysgrifenedig yn amcangyfrif y byddai'n cymryd hyd at 24 mis i'w gwblhau.[73]

**84.** Mae undebau'r amaethwyr yn gwrthod y cynnig i symud at system o brisiadau tabl, gan ddadlau mai prisio gwartheg ar sail eu rhinweddau unigol yw'r unig ffordd deg o wneud hynny.[74] Mae RSPCA Cymru wedi dweud bod y cynigion o ran prisiadau tabl yn rhesymol.[75]

**85.** Yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26, y dyraniad iawndal ar gyfer TB buchol (BEL 'Taliadau Difa TB - Costau a Derbyniadau') yw £14.32 miliwn, sef cynnydd o £502,000 o gymharu â'r Llinell Sylfaen Ddiwygiedig. Mae cynnydd hefyd o £1 miliwn ar gyfer dileu TB a £2 miliwn ar gyfer yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion. Mae'r Asiantaeth yn gweithredu gofynion statudol a pholisïau sy'n ymwneud â'r Rhaglen Dileu TB yn ogystal â rheolaethau eraill ar iechyd anifeiliaid ac iechyd pobl. Dywed papur yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Mae cyllidebau sy'n ymwneud â TB yn gyllidebau buddsoddi i arbed. Bydd methiant i fuddsoddi mewn dileu TB yn arwain at gynnydd cyfatebol mewn costau digolledu o ganlyniad i anifeiliaid heintiedig. Rwyf wedi gallu buddsoddi £1m yn ychwanegol yn 25-26."*[76]

**86.** Yn ei sesiwn gyda'r Pwyllgor, ymrwymodd y Dirprwy Brif Weinidog i ddechrau'r adolygiad eleni:

> *"We have allocated initial staff resource in preparation for a full review of the existing TB compensation policy, in line with those*

---

[71] Llyw.Cymru Ymgynghoriad ar Raglen Ddiwygiedig ar gyfer Dileu TB
[72] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 18 Ionawr 2024, paragraff 160
[73] Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Tystiolaeth Ysgrifenedig y Gweinidogion i bwyllgorau craffu'r Senedd
[74] nfu-cymru.org.uk NFU Cymru rejects move to tabular valuations in its bovine tb consultation response (Saesneg yn unig)
[75] Tystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i TB Buchol yn 2022 (Saesneg yn unig)
[76] Tystiolaeth ysgrifenedig – y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

*commitments that we set out within the eradication delivery plan. So, it will be commencing this year. I can give you that commitment."*[77]

## Ein barn ni

Mae'r Aelodau'n siomedig nad yw'r adolygiad o daliadau TB Buchol wedi dechrau eto, yn enwedig gan fod Llywodraeth Cymru wedi nodi sawl blwyddyn yn ôl fod y sefyllfa sydd ohoni'n anghynaliadwy. Gan fod yr adolygiad o daliadau'n hwyr yn dechrau, mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai bara y tu hwnt i dymor y Senedd hon, ac mai mater i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol – na wyddwn beth fydd ei chyfansoddiad – fydd rhoi hyn ar waith.

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod yr oedi hwn a'r posibilrwydd naill ai y bydd yr adolygiad yn cael ei roi ar waith gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol, neu y bydd y Llywodraeth honno'n penderfynu cynnal adolygiad arall, yn creu ansicrwydd annheg i ffermwyr. Mae angen sicrwydd ar ffermwyr er mwyn gallu cynllunio, ac mae'r Aelodau o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu ei hadolygiad er mwyn helpu i ddarparu'r sicrwydd hwnnw.

**Recommendation 19.** Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu ei hadolygiad o daliadau iawndal TB Buchol a cheisio ei gwblhau erbyn diwedd y Senedd hon.

## Lladd-dai

**87.** Dywedodd FUW yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor hwn yn ystod ymchwiliad i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) fod tua 90% o ladd-dai wedi'u colli yng Nghymru dros y tri degawd diwethaf. Yn y papur hwnnw, awgrymodd FUW, er mwyn gwella lles anifeiliaid, y dylid ceisio lleihau'r pellter y mae anifeiliaid yn cael eu cludo i'w lladd, ond fod colli lladd-dai lleol wedi cynyddu'r pellteroedd hynny.[78]

**88.** Yn 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Gronfa Lladd-dai Llai gwerth £4 miliwn er mwyn ceisio hybu cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd lladd-dai llai sy'n

---

[77] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 283
[78] Tystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Lles Anifeiliaid. (Saesneg yn unig)

ymdrin â chig coch a dofednod ledled Lloegr.[79] Mae FUW wedi awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru gynnig cyllid tebyg yng Nghymru.[80]

**89.** Roedd y Dirprwy Brif Weinidog yn cytuno ag FUW fod cau lladd-dai lleol yn drasiedi i'r cymunedau hynny. Dywedodd: "It's a tragedy for those communities, because what we do want is that local network as well of processing, rather than animals travelling massive distances back and forth. So, there are things that we can do, and that we do, but we have to work with the commercial sector as well, small and grand, to say to them, 'Work with us on this. We need that local infrastructure, from livestock rearing through to slaughter, through to processing'."[81]

**90.** Fodd bynnag, o ran arian ar gyfer lladd-dai, dywedodd, "There isn't a round of that going on at the moment specifically within the budget, but we do always keep these under review, if there's additional funding needed within particular sectors."[82]

### Ein barn ni

Mae'r Aelodau'n rhannu pryderon Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) ynghylch cau lladd-dai. Mae'r Aelodau o'r farn bod sicrhau y gall anifeiliaid gael eu lladd yn nes at y fferm yn bwysig o safbwynt lles anifeiliaid, ac y gall helpu i gefnogi'r economi leol drwy gynnig swyddi, cadw mwy o elfen 'gwerth ychwanegol' cynhyrchu cig yng Nghymru, a chefnogi ymdrechion dinasyddion i 'brynu'n lleol'. Mae'r Aelodau hefyd o'r farn y gall lladd-dai bach ymateb yn well i'r farchnad leol a chynhyrchu cynhyrchion mwy arbenigol. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno cymorth ar gyfer lladd-dai bach yng Nghymru sy'n debyg i gronfa Llywodraeth y DU yn Lloegr.

**Recommendation 20.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall gefnogi lladd-dai bach yng Nghymru drwy Gyllideb 2025-26.

[79] Gov.uk Applications open for new £4 million fund to support smaller abattoirs (Saesneg yn unig)
[80] Tystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Lles Anifeiliaid. (Saesneg yn unig)
[81] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 302
[82] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Ionawr 2025, paragraff 304